

ASTUDIAETH ACHOS ARLOESED



AILGYLCHU MEWN THEATRAU LLAWDRINIAETHAU BWRDD IECHYD PRIFYSGOL CWM TAF MORGANNWG

HYD: 6 mis (dyddiad dechrau 01/01/2021)

PARTNERIAID: Gwasanaethau Amgylcheddol Veolia, Innotech, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a Phrifysgol Caerdydd.

NOD: Newid ymddygiad staff drwy ddangos effaith ymddygiad ailgylchu gwell.



Partneriaid diwydiannol a byrddau iechyd sy'n rhan o'r prosiect hwn

TROSOLWG

Mae'r GIG yn cynhyrchu hyd at 600,000 tonn o wastraff bob blwyddyn, ac mae tua 85% o'r gwastraff hwn yn cael ei ystyried yn wastraff nad yw'n beryglus. Er bod modd ailgylchu llawer o'r gwastraff hwn, mae swm sylweddol yn dal i gael ei losgi neu ei anfon i safleoedd tirlenwi.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (BIPCTM) yn cynhyrchu dros 2,000 tonn o wastraff bob blwyddyn, gyda theatrau llawdriniaeth a labordai patholeg yr ardaloedd yn cynhyrchu'r nifer fwyaf. Rhan sylweddol o'r gwastraff hwn yw pecynnu defnyddiau traul sy'n cael eu defnyddio fel mater o drefn ar sail un claf.

Er bod yn rhaid i wastraff gofal iechyd gael ei gategoreiddio, ei wahanu a'i brosesu yn unol â'r ffrwd rheoli gwastraff briodol, gellid gwella arferion rheoli gwastraff a chyfathrebu arferion perthnasol. Er enghraifft, dargyfeirio gwastraff penodol o safleoedd llosgi a thirlenwi i ailgylchu, arbed arian a lleihau carbon.



Faint o eitemau plastig untro sydd eu hangen i roi'r gorau i un claf yn y theatr weithredu (delwedd drwy gwrteisi BIPCTM)

Mae'r prosiect cydweithredol hwn rhwng academyddion Prifysgol Caerdydd, Gwasanaethau Amgylcheddol Veolia, Innotech a BIPCTM yn ceisio archwilio llwybrau ar gyfer cynhyrchu deunyddiau newydd o'r gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi yn draddodiadol, gan hwyluso ymddygiad gwell ymysg staff tuag at ailgylchu mewn sefyllfa glinigol.

Mae Accelerate yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r prosiect hwn drwy brofiad Prifysgol Caerdydd o gasglu data, gwerthuso a rheoli prosiectau'n drylwyr. Bydd hyn yn gweithio ochr yn ochr â darpariaeth y bwrdd iechyd o amgylcheddau clinigol a mewnbwn staff sydd ei angen i weithredu protocolau a hyfforddiant newydd. Bydd partneriaid diwydiannol yn cyfrannu arbenigedd gwerthfawr mewn ffrydiau rheoli gwastraff a datblygiadau ailgylchu, a gyda'i gilydd bydd y bartneriaeth hon yn gweithio tuag at hyrwyddo arferion mwy cynaliadwy o fewn GIG Cymru.



CANLYNIADAU DISGWYLIEDIG

- Protocolau biniau ailgylchu newydd sy'n bodloni safonau clinigol priodol
- Newid ymddygiad o ran arferion ailgylchu staff
- Prosesau gwell ar gyfer rheoli gwastraff
- Gwell cyfathrebu ynghylch prosesau ailgylchu priodol
- Arbedion cost drwy ailgylchu mwy
- Canlyniadau gwerthusiad academaidd
- Newidiadau caffael i hwyluso prynu mwy o gynnyrch y gellir ei ailgylchu
- Astudiaethau achos a chyhoeddiadau a adolygir gan gymheiriaid
- Cyflwyno gwaith yn y dyfodol



EFFAITH YN Y DYFODOL

- Ôl troed carbon is i'r bwrdd iechyd
- Cyfleoedd i bartneriaid prosiect gydweithio ymhellach
- Model y gellir ei gyflwyno ar draws GIG Cymru, gan sicrhau arbedion cost, ymgysylltu â staff, rheoli gwastraff yn well ac arferion caffael gwyrddach
- Cyfraniad sylweddol at helpu i sicrhau 'Cymru Iachach' a 'Chymru Gynaliadwy'

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â: Accelerate@cardiff.ac.uk